

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Feddygol Crwys, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 23 Hydref 2025

Dyddiad cyhoeddi: 23 Ionawr 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad		21
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....		22
Atodiad C - Cynllun gwella.....		26

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol Crwys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 23 Hydref 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 27 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 5 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr adborth a ddarparwyd gan y cleifion mewn ymateb i'n harolwg yn gadarnhaol iawn, gyda phob un o'r cleifion ond un yn nodi fod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn dda iawn. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a bod y gweithiwr gofal iechyd yn esbonio pethau'n dda iddynt.

Roedd y system apwyntiadau yn sicrhau y gellir cynnal asesiad clinigol a blaenoriaethu apwyntiadau ac roedd yn hawdd ei defnyddio. Roedd yn amlwg bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer trefnu apwyntiad. Dywedodd cleifion wrthym yn eu harolwg y gallent drefnu apwyntiadau ar yr un diwrnod ac apwyntiadau cyffredin pan fo angen, a'u bod yn fodlon ar y math o apwyntiadau a gynigir iddynt.

Roedd cyngor hybu iechyd yn cael ei arddangos ym mhob rhan o'r practis, roedd amrywiaeth o glinigau wedi'u harwain gan feddygon teulu a nyrsys yn cael eu cynnal er mwyn rheoli cyflyrau cronig ac roedd gwasanaethau ychwanegol ar gael. Roedd hyn yn cynnwys clinigau ffliw ar benwythnosau er mwyn bodloni amserlenni cleifion a sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gallu mynychu.

Gwelsom ryngweithio cyfeillgar rhwng y staff a'r cleifion, ac roedd staff y dderbynfa yn siarad yn dawel wrth ymgysylltu â'r cleifion. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid gosod arwyddion ger y dderbynfa i hysbysu'r cleifion bod ystafell ochr ar gael os byddant am gael mwy o breifatrwydd.

Roedd gwybodaeth am hebryngwr wedi'i harddangos ar sgriniau teledu ac ar wefan y practis i hysbysu'r cleifion am eu hawl i rywun fod gyda nhw yn ystod archwiliadau. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid arddangos posteri yn yr ystafelloedd clinigol, ac y dylai'r staff gofnodi a wnaethant gynnig y gwasanaeth ac a wnaeth y cleifion dderbyn neu wrthod y cynnig fel mater o drefn yn nodiadau'r cleifion, ynghyd â manylion yr hebryngwr sy'n bresennol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod cleifion yn ymwybodol y gallant gael mwy o breifatrwydd wrth sgwrsio â staff y dderbynfa
- Sicrhau bod y cynnig o hebryngwr a'r broses o gofnodi'r cynnig hwnnw yn cael eu hatgyfnerthu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd adborth y cleifion am eu profiad cyffredinol, y gofal a mynediad i'r practis yn gadarnhaol
- Roedd y practis yn addasu ei wasanaethau i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom eu bod yn cynnwys asesiadau clinigol diogel a'u bod wedi'u cwblhau i safon glinigol dda.

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn addas at y diben, a bod rhagofalon diogelwch tân priodol, profion cyfarpar trydanol a gwiriadau legionella wedi'u cynnal.

Gwelsom fod yr ardaloedd clinigol yn ymddangos yn lân, a bod tystiolaeth o welliannau amgylcheddol, fel llawr newydd, er mwyn sicrhau y gellir glanhau'n effeithiol. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid cadw amserlenni glanhau diwedd dydd yn yr ystafelloedd clinig.

Roedd rolau a chyfrifoldebau'r staff nyrsio a'r gweithwyr cymorth gofal iechyd yn glir mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, ac roeddent yn eu deall yn dda. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth o hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn anghyson.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod rhywfaint o weithgarwch archwilio mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau yn cael ei gynnal, gan gynnwys archwiliadau hylendid dwylo a gwastraff, a oedd wedi'u cwblhau ac yn dangos sgoriau da. Rydym yn argymhell y dylid cynnal archwiliad atal a rheoli heintiau blynyddol ar gyfer y practis cyfan er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n gadarn.

Roedd prosesau priodol ar waith i reoli brechlynnau a meddyginiaethau cadwyn oer eraill, ac roedd gweithdrefnau addas ar waith er mwyn i'r staff dynnu sylw aelodau eraill o staff, er enghraifft pe byddai claf yn llewygu. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau o feddyginiaethau a chyfarpar yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio ym mhob rhan o'r practis.

Yn gyffredinol, roedd y staff yn ymwybodol o'r canllawiau diogelu diweddaraf a'r broses i'w dilyn i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu. Roedd cyfarfodydd diogelu yn cael eu cynnal yn y practis ac roedd ymwelwyr iechyd yn eu mynychu'n rheolaidd. Fodd bynnag, roedd angen rhoi polisi diogelu ar waith i ategu'r ymarfer a dylai'r arweinydd diogelu clinigol gwblhau hyfforddiant hyd at lefel 3.

Gwnaethom adolygu digwyddiad andwyol o bwys a gafwyd yn ddiweddar, a oedd yn cynnwys proses gadarn ar gyfer cofnodi, adolygu, nodi camau gweithredu a gwersi i'w dysgu o'r digwyddiad.

Roedd y practis yn elwa ar lefel dda o fewnbwn gan fferyllfa, a oedd yn ei helpu i gynnal adolygiadau o feddyginiaeth cleifion adeg rhyddhau.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Meddyginiaeth, stoc a chyfarpar y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio
- Hyfforddiant y staff ar atal a rheoli heintiau a hyfforddiant diogelu ar gyfer y clinigydd arweiniol

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi amserlenni glanhau diwedd y dydd ar waith
- Cynnal archwiliad atal a rheoli heintiau blynyddol ar gyfer y practis cyfan
- Datblygu polisi diogelu ac ymwybyddiaeth o'r canllawiau diweddaraf

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y staff nyrsio brosesau priodol ar gyfer rheoli brechlynnau a meddyginiaethau cadwyn oer eraill
- Roedd ymwelwyr ieuchyd yn mynychu cyfarfodydd diogelu'r practis yn rheolaidd
- Roedd cofnodion clinigol yn cael eu cadw i safon dda.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Dangosodd rheolwr y practis wybodaeth dda am y broses o redeg y practis. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir ac roedd pob un ohonynt yn ymddangos yn ymrwymedig i ofal cleifion.

Rydym yn argymhell y dylid rhoi strwythur a phrosesau cofnodi gwell ar waith i sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd a fforymau'r practis ynghyd â'r prosesau cysylltiedig yn cael eu cadw mewn man canolog a'u bod ar gael yn hawdd.

Er na chawsom lawer o ymatebion gan y staff i'n harolwg, roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda phob aelod o staff yn cytuno mai gofal yw prif flaenoriaeth y practis ac y byddent yn argymhell y practis hwn fel lle da i weithio ynddo.

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau'r staff a nodwyd gennym fod gwaith yn mynd rhagddo i lunio cofnod cydlynus a chanolog o ddogfennau a gwiriadau cyn cyflogi a

pharhaus, gan gynnwys hyfforddiant y staff. Fodd bynnag, fel practis hyfforddi, gwnaethom nodi bod trefniadau goruchwyllo meddygol da ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion ffurfiol, yr oedd y niferoedd yn isel, ac nid oedd unrhyw themâu neu dueddiadau amlwg. Roedd y rhain wedi cael eu cydnabod ac roedd y practis wedi ymateb iddynt mewn modd amserol.

Roedd y practis yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gwella ansawdd y clwstwr a oedd yn targedu materion cyfredol a pherthnasol sy'n effeithio ar y boblogaeth leol. Roedd archwiliadau mewnol yn cael eu cynnal yn y practis, ond rydym yn argymhell y dylid eu cynnwys fel rhan o amserlen o archwiliadau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Roedd y practis yn cynnal cysylltiadau proffesiynol agos gydag amrywiaeth o wasanaethau cymunedol y bwrdd iechyd, gan gynnwys nyrsys ardal, ymwelwyr iechyd, bydwagedd a chwnselydd, ac roedd rhai gwasanaethau wedi'u cyd-leoli i sicrhau gofal amserol a chydgyssylltiedig.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Agweddau ar wiriadau cyn cyflogi a gwiriadau cyflogaeth parhaus i'r staff, gan gynnwys hyfforddiant.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella strwythur a phrosesau cofnodi fforymau a chyfarfodydd y practis cyfan ynghyd â'r prosesau cysylltiedig
- Nodi anghenion hyfforddiant yn unol â rolau a chyfrifoldebau, gan sicrhau bod system ar waith i fonitro hyfforddiant ac i ddangos ei fod wedi'i gwblhau
- Ystyried amserlen archwilio flynyddol, a rhoi proses ar waith i gofnodi a rhannu archwiliadau a chymryd camau dilynol, yn ôl yr angen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr adborth gan y staff yn gadarnhaol ar y cyfan
- Nifer isel o gwynion oedd yn dod i law ar y cyfan, nid oedd unrhyw themâu neu dueddiadau wedi'u nodi, ac roeddent yn cael eu datrys mewn modd amserol
- Cydberthnasau gwaith agos â'r bwrdd iechyd a gwasanaethau cymunedol eraill.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau arolwg a chawsom 27 o ymatebion. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth cyffredinol yn dda iawn, a nododd pob un o'r ymatebwyr eraill ond un bod y gwasanaeth yn dda.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

" Mae staff y dderbynfa bob amser yn gwrtais ac yn barod iawn i helpu. Mae'r meddygon yn arbennig, ac mae'r gwasanaeth bob amser yn ffantastig"

"Ardal fwy preifat efallai er mwyn siarad â'r derbynnydd. Roedd datgelu problemau personol gan wybod bod yr unigolion yn yr ystafell aros yn gallu fy nghlywed yn anodd e.e prawf ceg y groth neu lympiau."

"Rwy'n hapus iawn â'r practis meddyg teulu. Gallaf bob amser gael apwyntiad addas, ac mae'r nyrsys yn wybodus ac yn gyfeillgar."

"Gallai'r feddygfa hon roi proses well ar waith ar gyfer apwyntiadau brys yn hytrach na phroses eistedd ac aros, yn fy marn i."

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd cyngor hybu iechyd i'w weld ym mhob rhan o'r practis, gan gynnwys gwybodaeth am anhwylderau cyffredin, ymgyrchoedd sgrinio, a gwasanaethau cymorth lleol. Roedd y wybodaeth yn gyfredol ac o ansawdd da.

Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth o glinigau wedi'u harwain gan feddygon teulu a nyrsys er mwyn rheoli cyflyrau cronig a gwasanaethau ychwanegol, gan gynnwys ffisiotherapi, brechiadau rhag y fflw a brechiadau teithio. Yn gadarnhaol, roedd clinigau fflw wedi cael eu cyflwyno ar benwythnosau yn ystod yr hydref er mwyn bodloni amserlenni cleifion a sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gallu mynychu.

Gofal urddasol a pharchus

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion bod y meddyg teulu yn esbonio pethau'n dda ac yn ateb pob un o'u cwestiynau, a nododd pob un ond un eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt. Yn gadarnhaol, cadarnhaodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y practis yn hygyrch, yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da. Gwelsom ryngweithio cyfeillgar rhwng y staff a'r cleifion, ac roedd staff y dderbynfa yn siarad yn dawel wrth ymgysylltu â'r cleifion. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid gosod arwyddion ger y dderbynfa i hysbysu'r cleifion bod ystafell ochr ar gael os byddant am gael mwy o breifatrwydd. Roedd galwadau ffôn ar gyfer apwyntiadau yn cael eu hateb mewn swyddfa breifat i ffwrdd o'r ardaloedd cyhoeddus.

Dylai'r practis osod arwydd ger y dderbynfa yn hysbysu'r cleifion y gallant gynnal sgysiau sensitif mewn ystafell ochr.

Roedd gwybodaeth am hebryngwr wedi'i harddangos ar sgriniau teledu ac ar wefan y practis i hysbysu'r cleifion am eu hawl i rywun fod gyda nhw yn ystod archwiliadau. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid arddangos posteri yn yr ystafelloedd clinigol, ac y dylai'r staff gofnodi a wnaethant gynnig y gwasanaeth ac a wnaeth y cleifion dderbyn neu wrthod y cynnig fel mater o drefn yn nodiadau'r cleifion, ynghyd â manylion yr hebryngwr sy'n bresennol.

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cofnodi'r cynnig o hebryngwr a phenderfyniadau i dderbyn neu wrthod y cynnig hwnnw yn nodiadau'r cleifion, yn unol â'r safonau a bennwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Dylid arddangos posteri yn yr ardaloedd clinigol.

Amserol

Gofal amserol

Roedd y system apwyntiadau yn sicrhau y gellir cynnal asesiad clinigol a blaenoriaethu apwyntiadau ac roedd yn hawdd ei defnyddio. Roedd yn bosibl trefnu apwyntiadau wyneb yn wyneb ac apwyntiadau ffôn hyd at chwe wythnos ymlaen llaw, ac roedd nifer da o gleifion yn defnyddio ap GIG Cymru i drefnu'r apwyntiadau hyn. Roedd apwyntiadau brys ar gael i gleifion wyneb yn wyneb â'r meddyg ar alwad drwy system eistedd ac aros.

Roedd yn amlwg bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer trefnu apwyntiad. Dywedodd cleifion wrthym yn eu harolwg y gallent drefnu apwyntiadau ar yr un diwrnod ac apwyntiadau cyffredin pan fo angen, a'u bod yn fodlon ar y math o apwyntiadau a gynigir iddynt.

Ar gyfer cleifion ag anghenion meddygol cronig neu barhaus, cadarnhaodd y mwyafrif eu bod yn gallu cael gofal a chymorth yn ddidrafferth pan fo angen.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Cadarnhaodd y staff y byddent yn diwallu unrhyw anghenion iaith neu gyfathrebu hysbys a'u bod yn ymwybodol o wasanaethau fel Language Line.

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr mai Saesneg oedd eu dewis iaith. O'r ddau ymatebydd a nododd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith, nododd un y gallai gyfathrebu yn Gymraeg. Fodd bynnag, cadarnhaodd y ddau nad oedd deunyddiau ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg.

Roedd y practis yn ystyried ffactorau sy'n golygu bod cleifion yn agored i niwed a chleifion sydd o bosibl yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu dros y ffôn. Mewn amgylchiadau o'r fath, cadarnhaodd y practis y byddai apwyntiadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnig fel mater o drefn i'r grŵp cleifion hwn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn addas at y diben, a bod rhagofalon diogelwch tân a phroffion cyfarpar trydanol priodol ar waith. Roedd gwiriadau legionella hefyd wedi'u cwblhau, ac roedd camau unioni wedi'u cymryd lle bo angen.

Roedd y staff yn gallu gofyn am gymorth brys o'u hardaloedd clinigol unigol. Pan ofynnwyd iddynt, dywedodd y staff eu bod yn gyfarwydd â'r broses hon a'u bod yn deall sut i ymateb.

Gwnaethom adolygu'r cynllun parhad busnes a gwelsom nad oedd yn cynnwys digon o fanylion nac wedi'i deilwra'n llawn at y practis. Roedd rheolwr y practis eisoes wedi nodi hyn fel maes i'w wella.

Dylai'r practis sicrhau y caiff cynllun parhad busnes manwl ei ddatblygu sydd wedi'i deilwra at y practis.

Gwnaethom gadarnhau bod hysbysiadau ynghylch diogelwch cleifion yn cael eu dosbarthu i'r staff yn ôl yr angen; fodd bynnag, nid oeddent yn cael eu storio ar yriant a rennir neu mewn un lleoliad hygrych. Rydym yn argymhell y dylai'r practis roi hyn ar waith i sicrhau y gall pob aelod o'r staff eu gweld yn hawdd.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod yr ardaloedd clinigol yn ymddangos yn lân, a bod tystiolaeth o welliannau amgylcheddol, fel llawr newydd, er mwyn sicrhau y gellir glanhau'n effeithiol. Gwnaethom gadarnhau bod yr ardaloedd clinigol yn cael eu glanhau bob dydd ond nad oedd hyn yn cael ei gofnodi fel mater o drefn.

Dylai'r practis sicrhau bod amserlenni glanhau diwedd y dydd yn cael eu cadw ym mhob ystafell clinig a'u cynnal yn gyson.

Roedd rolau a chyfrifoldebau'r staff nyrsio a'r gweithwyr cymorth gofal iechyd yn glir mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, ac roeddent yn eu deall yn dda. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth o hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn anghyson. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith, fel y nodir yn Atodiad B.

Roedd gwastraff clinigol, gan gynnwys eitemau miniog, yn cael ei wahanu'n briodol a'u storio'n ddiogel yn yr adeilad a'r tu allan.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod rhywfaint o weithgarwch archwilio mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau yn cael ei gynnal, gan gynnwys archwiliadau hylendid dwylo a gwastraff, a oedd wedi'u cwblhau ac yn dangos sgoriau da. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai'r practis gwblhau archwiliad atal a rheoli heintiau blynyddol ar gyfer y practis cyfan i sicrhau bod arferion da yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r practis.

Dylai'r practis gynnal archwiliad atal a rheoli heintiau blynyddol cynhwysfawr.

Roedd y staff yn gwybod sut i ymateb i anaf a achosir gan nodwydd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi neu siart lif sylfaenol ar gael a oedd yn nodi'r camau y dylid eu cymryd ar unwaith yn y clinig i helpu'r staff pe bai digwyddiad o'r fath yn codi.

Dylai'r practis sicrhau bod siart lif ar gyfer anafiadau a achosir gan nodwydd yn cael ei harddangos yn y clinig a bod polisi ar waith i ategu'r broses hon.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer rheoli brechlynnau a meddyginiaethau eraill. Roedd hyn yn cynnwys prosesau archebu, gwirio stoc a gwirio tymheredd oergelloedd, gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r hyn i'w wneud pe bai unrhyw broblem gyda'r gadwyn oer.

Roedd gweithdrefnau addas ar waith i'r staff dynnu sylw aelodau eraill o staff, er enghraifft pe byddai claf yn llewygu. Roedd yr holl gyfarpar brys ar gael yn hwylus, gan gynnwys y diffibriliwr a'r ocsigen. Fodd bynnag, nodwyd rhai enghreifftiau o feddyginiaethau a chyfarpar yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio y gallai fod eu hangen mewn argyfwng yn y practis. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith, y gellir ei gweld yn Atodiad B.

Nodwyd amrywiaeth o eitemau stoc a chyfarpar clinigol eraill yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio mewn ardaloedd amrywiol o'r practis.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y cyfrifoldeb dros wirio stoc a chyfarpar yn cael ei ddirprwyo'n briodol, a bod stoc a chyfarpar yn cael eu gwahanu a'u gwaredu mewn modd amserol.

Gwelsom fod presgripsiynau papur a phadiau presgripsiynau yn cael eu storio mewn ffordd addas. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai'r practis atgyfnerthu ei brosesau o ran cofnodi'r rhain wrth iddynt gyrraedd y practis, wedi'u hategu gan broses gwirio stoc barhaus.

Dylai'r practis sicrhau bod prosesau addas ar waith ar gyfer cofnodi a gwirio stoc presgripsiynau papur a phadiau.

Gwnaethom edrych ar sampl o Gyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion a gwelsom eu bod wedi cael eu cwblhau a'u llofnodi'n briodol, sy'n sicrhau bod y staff wedi'u hawdurdodi i roi meddyginiaethau penodol i gleifion.

Diogelu plant ac oedolion

Yn gyffredinol, roedd y staff yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf a'r broses i'w dilyn i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid myfyrio ar y maes hwn mewn sesiynau hyfforddiant neu gyfarfodydd practis cyfan yn y dyfodol. Dylai'r practis hefyd sicrhau bod polisi diogelu ar waith i ategu a chefnogi ei arferion diogelu.

Dylai'r practis sicrhau bod polisi a phroses ddiogelu yn cael eu creu a bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol ohonynt.

Roedd hyfforddiant i'r lefel berthnasol wedi cael ei ddarparu i'r staff yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau, ond nid oedd yr arweinydd diogelu wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel 3. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith, fel y nodir yn Atodiad B.

Roedd cyfarfodydd diogelu yn cael eu cynnal yn y practis ac roedd ymwelwyr ieuchyd yn eu mynychu'n rheolaidd. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y practis yn rhoi fflagiau system ar gofnodion aelodau o deuluoedd a brodyr a chwiorydd fel mater o drefn lle roedd unrhyw bryderon o ran amddiffyn plant neu ddiogelu.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Nodwyd gennym fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn gweithio'n effeithiol ar y cyfan. Roedd tystiolaeth bod cyfarpar yn cael ei galibradu drwy gontractau â gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr perthnasol. Fodd bynnag, nid oedd rhai eitemau wedi cael eu gwasanaethu ar yr adeg briodol neu nid oeddent yn cael eu defnyddio mwyach. Cafwyd gwared ar yr eitemau hyn fel nad oedd modd eu defnyddio mwyach yn ystod yr arolygiad.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwnaethom adolygu digwyddiad andwyol o bwys a gafwyd yn ddiweddar, a oedd yn cynnwys proses gadarn ar gyfer cofnodi, adolygu, nodi camau gweithredu a gwersi i'w dysgu o'r digwyddiad. Arweiniodd hyn at archwiliad clinigol ehangach o'r practis, a arweiniodd yn y pen draw at brosesau rheoli mwy diogel wrth ragnodi'r feddyginiaeth dan sylw i gleifion. Nodwyd bod ansawdd cyffredinol y dull yn dda.

Ar y cyfan, gwelsom broses amserol ac archwiliadwy ar gyfer ymdrin ag atgyfeiriadau a gohebiaeth arall i mewn ac allan o'r practis ar gyfer gofal eilaidd a/neu weithwyr proffesiynol eraill.

Roedd y practis yn elwa ar lefel dda o fewnbwn gan fferyllfa, a oedd yn ei helpu i gynnal adolygiadau o feddyginiaeth cleifion adeg rhyddhau. Er y byddai'n fuddiol i'r adnodd hwn gwmpasu adolygiadau ac archwiliadau eraill, caiff rôl y fferylllydd ei hariannu gan y clwstwr ac nid dim ond y practis hwn sy'n cyfarwyddo ei waith.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom eu bod yn cynnwys asesiadau clinigol diogel a'u bod wedi'u cwblhau i safon glinigol dda

Roedd yr holl nodiadau wedi'u codio'n briodol, roeddent yn cynnwys naratif cynhwysfawr, ac roedd y rhestrau problemau yn berthnasol. Byddai'r rhain yn galluogi meddyg teulu locwm i ddarparu parhad gofal da.

Gwelwyd bod yr holl gofnodion papur ac electronig yn cael eu cadw'n ddiogel ac nad oedd modd i gleifion gael gafael arnynt na'u gweld.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Oherwydd y nifer isel o ymatebion gan y staff, nid yw'n bosibl cynnwys crynodeb llawn yn yr adroddiad hwn. Efallai yr hoffai'r practis ddefnyddio'r adborth hwn fel dangosydd ac i gefnogi ei ymarferion casglu adborth ei hun.

O edrych ar yr ymatebion a gafwyd, roedd adborth y staff yn gadarnhaol ar y cyfan ar amrywiaeth o feysydd adborth. Yn benodol, roedd pob aelod o staff yn cytuno mai gofal yw prif flaenoriaeth y practis ac y byddent yn argymhell y practis hwn fel lle da i weithio ynddo.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Dangosodd rheolwr y practis wybodaeth dda am y broses o redeg y practis. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir ac roedd pob un ohonynt yn ymddangos yn ymrwymedig i ofal cleifion.

Gwnaethom ystyried dulliau cyfathrebu cyffredinol y practis cyfan, yn ogystal â ffurfioldeb, y broses gofnodi a'r ddogfennaeth mewn amrywiaeth o gyfarfodydd a fforymau'r practis a thrwy brosesau cysylltiedig. Byddem yn argymhell y dylid rhoi strwythur a phrosesau cofnodi gwell ar waith i sicrhau bod ffeiliau yn cael eu cynnal at ddibenion llwybrau archwilio.

Dylai'r practis sicrhau bod strwythur a phrosesau cofnodi gwell ar waith ar gyfer fforymau a chyfarfodydd practis cyfan ynghyd â phrosesau cysylltiedig.

Er mai ychydig iawn o staff a gwblhaodd ein harolwg staff, roedd pob un ohonynt yn teimlo eu bod yn gallu bodloni'r holl ofynion croes ar eu hamser yn y gwaith a'u bod yn meddu ar gyfarpar digonol i ymgymryd â'u rôl. Nid oedd un ymatebydd yn teimlo bod digon o staff na chymysgedd sgiliau priodol.

Yn gadarnhaol, roedd pob aelod o'r staff yn cytuno nad yw eu gwaith yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd ac roeddent o'r farn bod y practis yn gweithredu'n gadarnhaol mewn perthynas ag iechyd a llesiant. Fodd bynnag, roedd dau ymatebydd o'r farn y gellid atgyfnerthu'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Roedd pob aelod o staff ond dau yn teimlo y gallent wneud awgrymiadau ar gyfer gwella gwasanaethau yn y practis a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch newidiadau a allai effeithio ar eu gwaith. Roedd pob un

o'r ymatebwyr yn cytuno bod y practis yn eu hannog i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, a bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau nad yw'r rhain yn digwydd eto.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau'r staff a nodwyd gennym fod gwaith yn mynd rhagddo i lunio cofnod cydlynus a chanolog o ddogfennau a gwiriadau cyn cyflogi a pharhaus. Fodd bynnag, roedd rhai anghysondebau a hepgoriadau mewn perthynas â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac imiweiddiadau'r staff.

Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith, y gellir ei gweld yn Atodiad B.

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth ddiweddar i ddangos bod amrywiaeth o hyfforddiant a oedd yn berthnasol i rolau a chyfrifoldebau wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, yn debyg i'r uchod, roedd gwaith yn mynd rhagddo i nodi anghenion hyfforddiant ac i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu cofnodi mewn modd cyson.

Fel practis hyfforddi, gwnaethom nodi bod trefniadau goruchwyllo meddygol da ar waith. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd o adolygiadau a gynhelir yn syth ar ôl yr apwyntiad ('hot reviews' yn Saesneg) a pholisi drws agored er mwyn i feddygon dan hyfforddiant godi unrhyw bryderon clinigol yn ystod ymgynghoriadau â chleifion.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gallai cleifion gyflwyno pryderon, canmoliaeth ac adborth mewn nifer o ffyrdd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion ffurfiol, yr oedd y niferoedd yn isel, ac nid oedd unrhyw themâu neu dueddiadau amlwg. Roedd y rhain wedi cael eu cydnabod ac roedd y practis wedi ymateb iddynt mewn modd amserol.

Roedd ffyrdd eraill o roi adborth yn cael eu hysbysebu'n dda, gan gynnwys opsiynau i gysylltu â'r bwrdd iechyd lleol, Llais a gwasanaeth yr Ombwdsmon.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd yr holl gofnodion cleifion electronig a'r holl gofnodion cleifion papur yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno eu bod yn gallu cael mynediad at y systemau TG sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth i'r cleifion.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y practis yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gwella ansawdd y clwstwr a oedd yn targedu materion cyfredol a pherthnasol sy'n effeithio ar y boblogaeth leol.

Gwnaethom nodi bod menter gwella ansawdd ddiweddar i roi rhaglen camddefnyddio cyffuriau ar waith wedi bod o fantais i'r grŵp cleifion hwn, gan gynnwys gwella neu gynnal gallu'r unigolion hynny i weithio. Roeddem o'r farn bod y rhaglen hon yn addas ar gyfer gwaith dadansoddi neu wella ansawdd pellach.

Roedd rhai archwiliadau mewnol yn cael eu cynnal yn y practis, ond rydym yn argymhell y dylid eu cynnwys fel rhan o amserlen o archwiliadau ar gyfer y flwyddyn i ddod, a gaiff eu cofnodi a'u rhannu ac a fydd yn destun camau dilynol, fel y bo angen.

Dylai'r practis ystyried llunio amserlen archwilio flynyddol, a rhoi proses ar waith i gofnodi a rhannu archwiliadau a chymryd camau dilynol, yn ôl yr angen.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y practis yn cynnal cysylltiadau proffesiynol agos gydag amrywiaeth o wasanaethau cymunedol y bwrdd iechyd, gan gynnwys nyrsys ardal, ymwelwyr iechyd, bydwagedd a chwnselydd. Roedd rhai gwasanaethau wedi'u cyd-leoli yn y practis i gefnogi gofal amserol a chydgyssylltiedig.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys

Cynllun Gwella ar Unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Crwys

Dyddiad yr arolygiad: 23 Hydref 2025

Canfyddiadau

Ni chawsom sicrwydd fod prosesau digonol ar waith i sicrhau bod hyfforddiant staff yn cael ei gwblhau, ei gofnodi a'i fonitro gan y practis. Er i ni weld tystiolaeth bod matrices hyfforddiant wrthi'n cael ei ddatblygu, ni roddodd hyn ddigon o sicrwydd i ni ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwnaethom nodi bylchau mewn meysydd hyfforddiant hanfodol. Er i ni gael sicrwydd ar lafar yn ystod yr arolygiad bod meddygon teulu wedi cwblhau hyfforddiant diogelu lefel 3, nid oedd unrhyw dystiolaeth o hyn ar gael ar y diwrnod. At hynny, nid oedd y staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau lefel 2.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr hyfforddiant diogelu (lefel 3) ac atal a rheoli heintiau (lefel 2) yn cael ei gwblhau. Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cofnodi ac yn monitro hyfforddiant y staff yn rheolaidd fel mater o drefn.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023)	Rydym wedi dod o hyd i gwrs hyfforddiant atal a rheoli heintiau Lefel 2 ar-lein ar safle eLearning for Healthcare GIG Lloegr ac mae pob aelod o'r staff clinigol wrthi'n ei gwblhau. Mae hyfforddiant diogelu Lefel 3 ar gael drwy'r Bwrdd lechyd ac rydym wedi rhoi gwybod i bob aelod o staff y mae'n ofynnol iddo ei gwblhau sut i drefnu'r hyfforddiant hwnnw. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn meddu ar dystysgrifau cyfredol a bod y dyddiadau adnewyddu wedi'u nodi'n glir. Caiff hyn ei fonitro ac anfonir nodyn atgoffa at	Rheolwr y Practis - Andy Smith	Amserlen ar gyfer cwblhau'r hyfforddiant atal a rheoli heintiau = 1-2 wythnos Hyfforddiant diogelu = 1-3 mis gan ddibynnu pryd y bydd cyrsiau ar gael

			bob clinigydd nes y bydd wedi'i gwblhau. Mae pob hyfforddiant bellach yn cael ei gofnodi yn ein Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant a fydd yn cael ei ddiweddarau a'i adolygu'n rheolaidd.		
--	--	--	--	--	--

Canfyddiadau

Gwnaethom nodi eitemau o feddyginiaeth a chyfarpar yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio, a oedd yn rhan o'r pecyn argyfwng a ddefnyddir i reoli argyfyngau meddygol. Roedd y rhain yn cynnwys aspirin, tiwbiau, dextragel, a bensylpenisilin. Gwnaethom hefyd nodi amrywiaeth o eitemau o feddyginiaeth a chyfarpar yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio mewn sawl ardal glinigol ac ardal storio yn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
2. Rhaid i'r practis sicrhau bod y gwiriadau o'r pecyn argyfwng yn cael eu cofnodi bob wythnos. Cynghorir y practis i ystyried symleiddio'r cyfrifoldeb am y gwiriadau hyn Rhaid i'r practis adolygu'r holl eitemau stoc a ddelir ar safle'r practis i sicrhau eu bod yn addas at y diben o hyd ac yn barod i'w defnyddio.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) Cyngor Adfywio'r DU: Safonau Ansawdd Gofal Sylfaenol	Rydym wrthi'n cyfuno'r holl daenlenni rheoli stoc blaenorol o fewn un daenlen a fydd yn cynnwys dyddiadau defnyddio clir a dim ond y tîm nyrsio fydd yn gyfrifol am wirio'r stoc a'i rheoli. Caiff hyn ei adolygu bob wythnos gan aelod o'r tîm a bydd unrhyw eitemau y mae eu dyddiad defnyddio yn agosáu yn cael eu huwchleuo mewn coch ar y daenlen. Bydd hapwiriadau'n cael eu cynnal bob deufis i sicrhau bod y daenlen yn cael ei diweddarau'n gywir a bod unrhyw eitemau y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio yn cael eu gwaredu.	Nyrs y Practis - Julie Owen	Byddwn yn gweithio ar y daenlen wythnos nesaf a bydd ar waith ar ôl hynny.

--	--	--	--	--	--

Canfyddiadau

Ni allem fod yn sicr fod proses ddigonol ar waith i drefnu a monitro gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Er y rhoddwyd sicrwydd i ni ar lafar bod y practis wedi gwneud cais am dystysgrifau DBS ar gyfer y staff, gwelsom ar ddiwrnod yr arolygiad nad oedd y tystysgrifau ar gael mewn ffeil neu nad oeddent ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol. At hynny, nid oedd proses ar waith i gadarnhau'n rheolaidd fod aelodau o'r staff yn parhau i fod yn addas i weithio yn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
3. Rhaid i'r practis sicrhau bod tystysgrifau DBS ar gael i'r staff hyd at y lefel briodol sy'n berthnasol i'w rolau. Rhaid i'r practis sicrhau bod proses ar waith i fonitro bod aelodau o'r staff yn parhau i fod yn addas i weithio yn y practis fel mater o drefn (e.e. hunanddatganiad neu wiriadau blynyddol)		Roedd tystysgrif DBS yng nghofnodion y rhan fwyaf o'r staff. Yn anffodus, dewiswyd y cofnodion nad oeddent yn cynnwys tystysgrifau. Mae pob aelod arall o staff bellach wedi cwblhau ei ffurflen DBS ac rydym yn aros am gopiau o'r tystysgrifau. Rydym wedi llunio ffurflen i'r staff ei llofnodi bob blwyddyn i gadarnhau nad oes unrhyw newidiadau wedi bod mewn perthynas â'u tystysgrif DBS.	Rheolwr y Practis - Andy Smith	Eisoed wedi'i gwblhau

Canfyddiadau

Ni allem fod yn sicr fod system gadarn ar waith i nodi, monitro a chofnodi imiwneiddiadau'r staff (e.e. Hepatitis B) sy'n berthnasol i'w rôl.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
4. Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cael eu hasesu a'u bod yn	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023)	Rydym bellach wedi creu taflen cofnodi staff ar gyfer Hepatitis B a fydd yn cael	Rheolwr y Practis - Andy Smith	1 mis

cael cynnig imiwneiddiadau sy'n berthnasol i'w rôl. Rhaid i'r practis gynnal cofnod a'i adolygu ar adegau priodol.	Immunisation of healthcare and laboratory staff: the green book, chapter 12	ei diweddaru a'i chynnal ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol. Bydd pob aelod o staff heb statws Hepatitis B yn cwblhau prawf gwaed statws yn ystod y mis nesaf er mwyn i ni ddiweddaru'r cofnod hwn. Gofynnir i'r staff ailadrodd y broses hon bob pum mlynedd.		
--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Andy Smith

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 6 Tachwedd 2025

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Crwys

Dyddiad yr arolygiad: 23 Hydref 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	I gefnogi profiad y claf / gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	Dylai'r practis osod arwydd ger y dderbynfa yn hysbysu'r cleifion y gallant gynnal sgysiau sensitif mewn ystafell ochr.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023	Mae arwydd wedi cael ei osod ar ddesg y dderbynfa ac ar ddrws yr ystafell ochr.	Andy Smith	Wedi'i gwblhau
2.	I gefnogi profiad y claf (gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn) a safonau proffesiynol	Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cofnodi'r cynnig o hebryngwr a phenderfyniadau i dderbyn neu wrthod y cynnig hwnnw yn nodiadau'r cleifion, yn unol â'r safonau a bennwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Dylid arddangos		Mae posteri bellach wedi'u harddangos mewn mannau amlwg ym mhob ystafell glinigol. Caiff pob cynnig o hebryngwr a phenderfyniadau i'w dderbyn eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.	Andy Smith Dr D Rees	Mae'r posteri wedi'u cwblhau Byddwn yn archwilio'r broses ar gyfer cynnig

		posterï yn yr ardaloedd clinigol.				hebryngwr yn barhaus
3.	I gefnogi'r gweithlu / partneriaeth	Dylai'r practis sicrhau y caiff cynllun parhad busnes manwl ei ddatblygu sydd wedi'i deilwra at y practis.		Mae'r cynllun parhad busnes wrthi'n cael ei adolygu.	Andy Smith	Diwedd mis Mawrth
4.	I gefnogi prosesau atal a rheoli heintiau	Dylai'r practis sicrhau bod amserlenni glanhau diwedd y dydd yn cael eu cadw ym mhob ystafell clinig a'u cynnal yn gyson.		Mae amserlenni glanhau bellach wedi cael eu llunio a chytunwyd arnynt â'r contractwr glanhau.	Andy Smith	Cânt eu rhoi ar waith o fis Ionawr
5.	I gefnogi prosesau atal a rheoli heintiau	Dylai'r practis gynnal archwiliad atal a rheoli heintiau blynyddol cynhwysfawr.		Bwriedir cynnal archwiliad atal a rheoli heintiau yn y Flwyddyn Newydd	Julie Owen	Caiff ei gynnal bob mis Ionawr wedi hynny
6.	I gefnogi prosesau atal a rheoli heintiau / Y Gweithlu	Dylai'r practis sicrhau bod siart lif ar gyfer anafiadau a achosir gan nodwydd yn cael ei harddangos yn y clinig a bod polisi ar waith i ategu'r broses hon.		Mae poster anafiadau a achosir gan nodwydd bellach ar gael ym mhob ystafell glinigol ac mae polisi anafiadau a achosir gan nodwydd wedi cael ei lunio sydd ar	Andy Smith	Wedi'i gwblhau

				gael i bawb ar ein gyriant a rennir.		
7.	I gefnogi prosesau atal a rheoli heintiau a gofal diogel	Rhaid i'r practis sicrhau bod y cyfrifoldeb dros wirio stoc a chyfarpar yn cael ei ddirprwyo'n briodol, a bod stoc a chyfarpar yn cael eu gwahanu a'u gwaredu mewn modd amserol.		Mae'r broses o reoli stoc bellach wedi cael ei dyrannu i'n staff nyrsio sydd wedi cyfuno'r taenlenni presennol ac yn cynnal gwiriadau bob wythnos.	Julie Owen	Parhaus
8.	I gefnogi'r broses rheoli meddyginiaethau	Dylai'r practis sicrhau bod prosesau addas ar waith ar gyfer cofnodi a gwirio stoc presgripsiynau papur a phadiau.		Mae cofnodlyfr bellach yn cael ei ddefnyddio ac rydym wrthi'n cyfri stoc yr holl bresgripsiynau a phadiau.	Jacquie Short	Ar ôl cyfri'r stoc, byddwn yn rhoi gwybod i bob aelod o staff fod angen cwblhau'r cofnodlyfr pan gaiff stoc ei symud. Caiff y broses ei chwblhau erbyn

						diwedd mis lonawr.
9.	I gefnogi gofal diogel	Dylai'r practis sicrhau bod polisi a phroses ddiogelu yn cael eu creu a bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol ohonynt.		Mae'r polisi diogelu wrthi'n cael ei adolygu a bydd ar gael ar ein gyriant a rennir wedi hynny.	Andy Smith	Parhaus - i'w gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth
10.	I gefnogi Arweinyddiaeth	Dylai'r practis sicrhau bod strwythur a phrosesau cofnodi gwell ar waith ar gyfer fforymau a chyfarfodydd practis cyfan ynghyd â phrosesau cysylltiedig.		Byddwn yn cofnodi unrhyw drafodaethau anffurfiol yn y dyfodol, yn wahanol i'r drefn o'u cyfathrebu ar lafar yn y gorffennol. Bydd rhannau o'n cyfarfodydd busnes nad ydynt yn cynnwys gwybodaeth sensitif am y busnes bellach yn cael eu hanfon at y staff er gwybodaeth.	Andy Smith	Parhaus ac o'r cyfarfod Busnes nesaf ym mis lonawr.
11.	I gefnogi dysgu a gwella	Dylai'r practis ystyried llunio amserlen archwilio flynyddol, a rhoi proses ar waith i gofnodi a rhannu archwiliadau a chymryd		Byddwn yn anelu at greu'r amserlen hon o fis Ebrill 2026	Andy Smith	Byddwn yn treulio amser yn adolygu'r amserlen

		camau dilynol, yn ôl yr angen.				ac yn ei rhoi ar waith o fis Ebrill.
--	--	--------------------------------	--	--	--	--------------------------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Andy Smith

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 18/12/2025